Sefydliad Materion Cymreig
Institute of Welsh Affairs

Cylchlythyr Mai 2008

Dechrau prysur i 2008

Am fod yr haf yn prysur agosáu, mae hi'n bryd inni roi gwybod i'n haelodau am yr hyn a fu'n gyfnod prysur i'r Sefydliad. Ddiwedd y gaeaf ac yn y gwanwyn cafwyd nifer o gyhoeddiadau pwysig, cynadleddau a digwyddiadau eraill, cryn weithgarwch yn y canghennau ar hyd a lled Cymru a staff newydd yn ymuno â'r sefydliad.

Cafwyd dechrau addawol i'r flwyddyn gyda chynhadledd brysur iawn ar y testun *Profiad Blaenau'r Cymoedd* ym Mhenderyn, ger Hirwaun. Ym mis Chwefror, daeth dros 150 o bobl, yn bennaf o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, ynghyd i glywed amrywiaeth o siaradwyr, gan gynnwys yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd, Ieuan Wyn Jones, Dirprwy Brif Weinidog Cymru, a Leighton Andrews, y Dirprwy Weinidog dros Adfywio, yn siarad am y cynlluniau i adfywio ardal sy'n dal i gael ei chysylltu'n fawr ag amddifadedd economaidd a chymdeithasol difrifol.

Bu grwpiau llai yn trafod tai, trafnidiaeth, a diwylliant a thwristiaeth, a defnyddiwyd rhai o'r materion a godwyd mewn seminar a gynhaliwyd wedyn mewn cydweithrediad â'r Sefydliad Adfywio ym Mhrifysgol Caerdydd. Y prif siaradwr oedd yr Athro Steve Fothergill o Brifysgol Sheffield Hallam, prif arbenigwr y DU ar ardaloedd diwydiannol hŷn. Ar hyn o bryd, mae'r cyflwyniadau o'r ddau ddigwyddiad wrthi'n cael eu golygu a chânt eu cyhoeddi yn hwyrach yr haf yma mewn cyhoeddiad newydd gan yr IWA.

Ar yr ochr wleidyddol, bu pedwar sylwebydd academaidd blaenllaw, sef John Kay, Will Hutton, David Marquand a Peter Stead yn eu tro yn arwain un allan o gyfres o bedair seminar gyda'r thema eang, *Y Consensws Blaengar*. Nod y gyfres, a fu'n rhedeg rhwng Chwefror ac Ebrill, oedd ystyried y syniadau oedd yn sail i gytundeb clymblaid Cymru'n Un rhwng Llafur a Phlaid Cymru ym mis Gorffennaf 2007. Caiff hwn hefyd ei gyhoeddi'n fuan.

Dilynwyd hyn gan gyfres seminar bwysig arall, *O Gynulliad i Senedd*, a drefnwyd ar y cyd â Cymru Yfory / Tomorrow's Wales, y sefydliad a arweinir gan Archesgob Cymru, y Gwir Barchedig Barry Morgan. Mewn pedair cynhadledd hanner diwrnod yn Wrecsam, Caerfyrddin, Aberystwyth a Chaerdydd ym mis Ebrill edrychwyd ar y broses sy'n mynd rhagddi o drosglwyddo pwerau deddfu cynradd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymysg y siaradwyr roedd Syr Emyr Jones-Parry, cadeirydd y confensiwn cyfansoddiadol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried y materion, y Gwir Barchedig Barry Morgan, Archesgob Cymru, Yr Arglwydd Elystan Morgan, sawl un o Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol o bob un o'r pedair plaid wleidyddol, a chyfarwyddwr y Sefydliad, John Osmond.

Y canghennau'n trafod materion lleol allweddol

Ymysg digwyddiadau'r canghennau yn ystod y cyfnod hwn roedd darlith gan yr Athro Christopher Pollock o Brifysgol Aberystwyth gyda'r teitl *Science and Government, Options for Wales* yn Abertawe, trafodaeth am rôl archfarchnadoedd yng Nghymru

gyda Felix Gummer, cyfarwyddwr materion corfforaethol Tesco yng Nghymru, a seminar ar faterion trafnidiaeth Gorllewin Cymru, y ddau olaf yng Nghaerfyrddin. Yn gynharach yn y flwyddyn bu'r Dirprwy Brif Weinidog, sydd â chyfrifoldeb dros drafnidiaeth, yn annerch cynhadledd yn Llandudno ar *Uno'r Genedl*, archwiliad o sut y gellid creu cysylltiadau gwell rhwng gogledd a de Cymru trwy wneud gwelliannau i rwydwaith y ffyrdd.

Yr IWA yn 21ain

Eleni mae hefyd yn digwydd bod yn 21 mlynedd ers sefydlu'r IWA, ac yn y cyntaf o sawl digwyddiad arfaethedig i ddathlu, y Sefydliad a gynhaliodd rifyn Ebrill y 4ydd o *Any Questions? BBC Radio 4* o Ysgol Fusnes Caerdydd. Panelwyr y noson oedd Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, Helen Mary Jones AC o Blaid Cymru, Dr. Evan Harris AS o'r Democratiaid Rhyddfrydol a Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Gwrthblaid y Ceidwadwyr dros Gymru.

Rhaglen lawn i'r haf

Bydd y rhaglen brysur yn parhau yn yr haf, gyda digwyddiadau wedi'u trefnu ar Ddyfodol Darlledu yng Nghymru mewn cydweithrediad ag Ofcom ar 9 Mehefin yn Llandudno ac ar y ddau ddiwrnod canlynol, yn gyntaf yn Aberystwyth ac yna yng Nghaerdydd. Ymysg y siaradwyr bydd Geraint Talfan Davies, Cadeirydd yr IWA, Rhodri Williams o Ofcom Cymru, Rob Irvine, Golygydd y Daily Post, a Ron Jones, Prif Weithredwr Tinopolis, y cynhyrchydd annibynnol. Yna, ar 12 Mehefin, byddwn ni'n dychwelyd i Westy'r Parc (Thistle) newydd ei adnewyddu yng Nghaerdydd ar gyfer gynhadledd undydd gydag amryw bartneriaid ar y testun Datblygu Cynaliadwy yn Gwneud Synnwyr Busnes. Yr ochr hon i'r wyliau'r hâf cynhelir tri achlysur. Ar 17 Fehefin, bydd Geraint Talfan Davies yn siarad am ei yrfa yn y cyfryngau â chelfyddydau dros cinio ym Mhrifysgol Bangor. Ar 26 Mehefin, bydd cangen Gwent yn cynnal cynhadledd hanner ddydd, Ardal Ddiwylliannol i Gasnewydd, yn edrych ar y rôl y gallai gweithgarwch diwylliannol ei chwarae yn y gwaith helaeth sy'n mynd rhagddo o adfywio canol y ddinas, gan gynnwys glan yr afon. Yn olaf, ar nos Lun, 30 Mehefin mae'r cangen Gorllewin Cymru yn cynnal achlysur hâf, yn Aberglasni, sy'n cynnwys daith o gwmpas y gerddi ac anerchiad gan Geraint Talfan Davies. Am fwy o wybodaeth ar yr achlysuron hyn, gweler y wefan www.iwa.org.uk.

Ymchwil yn amlygu'r cyfryngau

Yn ystod y cyfnod hwn y prif waith ymchwil a wnaeth y Sefydliad oedd i rôl, statws, perfformiad a rhagolygon cyfryngau print a darlledu Cymru. Mae'r astudiaeth, gan Geraint Talfan Davies a Nick Morris, wedi bod yn talu sylw arbennig i'r diffyg amrywiaeth yng nghyfryngau print Cymru a'r peryglon posibl os bydd ITV Cymru yn lleihau ei wasanaeth yn y dyfodol. Mae hefyd yn ystyried y modd y caiff Cymru ei chynrychioli yn y cyfryngau yn Llundain a'r anawsterau sy'n wynebu cymdeithas ddinesig Gymreig newydd o achos yr ymdriniaeth gyfyng iawn o newyddion Cymreig yn y cyfryngau gwasg y mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn eu darllen. Caiff yr ymchwil, a gefnogir gan Ofcom a Llywodraeth Cynulliad Cymru, ei gyhoeddi yn fuan a bydd cynhadledd i ddilyn. Gyda llaw, Nick yw swyddog ymchwil newydd yr IWA, a ymunodd â'r sefydliad yn barhaol ar ôl gweithio i ni gynt dan gynllun Cyfleoedd i Raddedigion Llywodraeth Cynulliad Cymru. (Os hoffech chi gael manylion am y cynllun hwn, rhowch wybod i ni, inni gael pasio'ch ymholiad ymlaen.)

Mae prosiectau ymchwil eraill, ar fynd i'r afael ag ymddieithriad o addysg yng Nghymru, ar effaith cymdeithasol-economaidd a gwleidyddol Morglawdd Hafren, ar dollau Pont Hafren a'u heffaith ar economi Cymru, ac ar sawl pwnc arall, naill ai ar y gweill neu'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae astudiaeth arall ar Glystyrau Awyrofod yng Nghymru, a gynhaliwyd ar y cyd rhwng yr IWA, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Morgannwg ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, newydd ei chyhoeddi a gobeithir y bydd yn helpu i lywio polisi cyhoeddus yn y sector diwydiannol hwn sy'n allweddol i Gymru.

Ymysg y cyhoeddiadau gan yr IWA yn y misoedd diwethaf mae *A strategy for the Welsh Economy* gan Dr. John Ball o Brifysgol Fetropolitan Abertawe, lle mae'n awgrymu sawl syniad radical newydd i annog datblygu gweithgarwch busnes newydd ac i gynyddu cyfradd twf rhanbarthau Cymru. Hefyd, cyhoeddodd Geraint Talfan Davies, cadeirydd yr IWA, ei fyfyrdodau yn *At Arm's Length* am amrywiaeth o faterion Cymreig, o'r frwydr lwyddiannus i gadw annibyniaeth yn y modd y caiff y celfyddydau eu hariannu i anghenion y gymdeithas ddinesig Gymreig newydd. www.seren-books.com

Newydd wedd y wefan

Bydd y rhai sy'n mynd i'r wefan yn aml hefyd wedi sylwi ar welliannau diweddar, gan gynnwys tudalen flaen fwy destlus a'r gallu i lywio'n haws rhwng yr amryw dudalennau eraill. Gwnaed llawer o'r gwaith gan Helen Dodd, myfyriwr gradd meistr o Brifysgol Abertawe, sydd hefyd wedi rhoi cyfleusterau chwilio ar y safle, sy'n galluogi ymwelwyr i ddod o hyd i hen erthyglau a chyhoeddiadau yn llawer cynt. Hefyd mae yna erbyn hyn fodd i brynu nwyddau a gwasanaethau gan yr IWA yn uniongyrchol o'r dudalen drwy PayPal heb fod angen cysylltu â swyddfeydd yr IWA.

Nodwedd newydd arall ar y wefan yw blog yr IWA, lle mae croeso i aelodau ac eraill gynnig sylwadau ar faterion y mae angen rhoi sylw iddynt yn eu barn nhw. Mae rhai cofnodion blog wedi'u llwytho eisoes ac mae croeso i chi gyfrannu at y dadleuon, yn enwedig gyda sylwadau am y blogiau.

Rydym hefyd wrthi'n creu rhan i aelodau y gellir mynd ati dim ond gyda chyfrinair unigryw, lle bydd modd cael mynediad at amryw o wasanaethau'r IWA, gan gynnwys cyhoeddiadau dan ddisgownt. Os oes gennych chi unrhyw syniadau am fuddion yr hoffech chi eu gweld yn cael eu cynnig trwy'r rhan hon o'r wefan, bydden ni'n falch iawn o gael clywed gennych.

Yr IWA yng Nghaerdydd 2008

Yn olaf, bydd yr IWA eto eleni yn bresennol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a gynhelir, wrth gwrs, yng Ngerddi Sophia, nepell o swyddfeydd yr IWA yn Rhodfa'r Amgueddfa, yr ochr arall i Barc Cathays. Caiff darlith flynyddol Eisteddfod Genedlaethol yr IWA eleni ei thraddodi gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, Rhodri Glyn Thomas, ar y testun *Treftadaeth Yfory / Tomorrow's Heritage.* Caiff ei chynnal yn y Pagoda ar y Maes am 2pm ddydd Mawrth 5 Awst. Croeso i bawb.

Agenda

Caiff y rhifyn nesaf o gyfnodolyn yr IWA, *agenda*, sydd wrthi'n cael ei baratoi, ei gyhoeddi ddiwedd Gorffennaf.

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau i'w gwneud parthed unrhyw un o'r materion a godwyd uchod, rhowch wybod i ni ar bob cyfrif yn wales@iwa.org.uk Mae'r cyfeiriad hwn, neu ein rhif ffôn, 029 2066 6606 ar gael hefyd i gadw lle ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau, i archebu cyhoeddiadau neu ar gyfer unrhyw ymholiadau eraill.

Gyda diolch am eich cefnogaeth barhaus

Mai 2008